OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 Rhif (Cy. )

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Cwlfert Carreg Fawr, i'r gogledd o Gylchfan y Square and Compass ger Llangadog, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2020

*Gwnaed* *25 Awst 2020*

*Yn dod i rym* *1 Medi 2020*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A40, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Cwlfert Carreg Fawr, i'r gogledd o Gylchfan y Square and Compass ger Llangadog, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2020 a daw i rym ar 1 Medi 2020.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw cerbydau perchnogion/meddianwyr tir sy'n union gyfagos i'r gilfan lle lleolir mangre gwerthu bwyd neu sy'n cael eu defnyddio mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2020 No. (W. )

# ROAD TRAFFIC, WALES

## The A40 Trunk Road (Carreg Fawr Culvert, north of Square and Compass Roundabout near Llangadog, Carmarthenshire) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2020

*Made* *25 August 2020*

*Coming into force* *1 September 2020*

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A40 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), make this Order.

**Title, Commencement and Interpretation**

**1.** The title of this Order is the A40 Trunk Road (Carreg Fawr Culvert, north of Square and Compass Roundabout near Llangadog, Carmarthenshire) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2020 and it comes into force on 1 September 2020.

**2.** In this Order—

"exempted vehicle" *("cerbyd esempt")* means vehicles of owners/occupiers of land directly adjacent to the lay-by where a food outlet premises is located or being used in connection with the works giving rise to this Order;

(**1**) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 1 Medi 2020 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw'r darn cyfan o'r gilfan sy'n gyfagos i gerbytffordd tua'r gogledd cefnffordd yr A40 Abertawe i Fanceinion a leolir oddeutu 580 o fetrau i'r gogledd o'r gyffordd â Chylchfan y Square and Compass ger Llangadog, Sir Gaerfyrddin.

**Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o gilfan y gefnffordd a bennir yn erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn.

**Cymhwyso**

**4.** Nid yw'r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 25 Awst 2020



*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

"the trunk road" *("y gefnffordd")* means the full length of the lay-bay adjacent to the northbound carriageway of the A40 Swansea to Manchester trunk road that is located approximately 580 metres north of the junction with Square and Compass Roundabout near Llangadog, Carmarthenshire;

"works period" *("cyfnod y gwaith")* means the period commencing at 20:00 hours on 1 September 2020 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

**Prohibition**

**3.** No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the length of the trunk road lay-by specified in article 2 of this Order.

**Application**

**4.** The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

**Duration of this Order**

**5.** The maximum duration for this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy, Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated 25 August 2020



*Nicci Hunter*
Business Team Leader
Welsh Government

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A40 (CWLFERT CARREG FAWR, I'R GOGLEDD O GYLCHFAN Y SQUARE AND COMPASS GER LLANGADOG, SIR GAERFYRDDIN) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2020**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A40, neu gerllaw iddi, i'r gogledd o Gylchfan y Square and Compass ger Llangadog, Sir Gaerfyrddin.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio'r rhai y mae angen iddynt gael mynediad i safle gwerthu bwyd 'Martin and Sue's Cabin' neu sy'n cael eu defnyddio ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darn o'r gilfan sy'n gyfagos i gerbytffordd tua'r gogledd cefnffordd yr A40 a leolir oddeutu 580 o fetrau i'r gogledd o'r gyffordd â Chylchfan y Square and Compass ger Llangadog, Sir Gaerfyrddin.

Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro yn dod i rym am 20:00 o'r gloch ar 1 Medi 2020 ac yn parhau mewn grym hyd 06:00 o'r gloch ar 30 Hydref 2020 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf, rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**



**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A40 TRUNK ROAD (CARREG FAWR CULVERT, NORTH OF SQUARE AND COMPASS ROUNDABOUT NEAR LLANGADOG, CARMARTHENSHIRE) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2020**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A40 trunk road to the north of Square and Compass Roundabout near Llangadog, Carmarthenshire.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles, other than those needing to access 'Martin and Sue's Cabin' food outlet or being used for the works, from proceeding on the length of the lay-by adjacent to the northbound carriageway of the A40 trunk road that's located approximately 580 metres north of the junction with Square and Compass Roundabout near Llangadog, Carmarthenshire.

The temporary prohibition is expected to come into force at 20:00 hours on 1 September 2020 and to remain in force until 06:00 hours on 30 October 2020 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**



**J SADDLER**
Transport
Welsh Government